## Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd y set gyntaf o safonau, sy'n cael eu cynnig yn y ddogfen hon, yn canolbwyntio ar awdurdodau lleolgynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn awr yn cynnal ymchwiliad i benderfynu pa sefydliadau fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau a pha safonau ddylai fod yn gymwys iddynt.

**Sylwadau gan [o1]:** Hwn yn cael ei nodi ar ddiwedd y cyflwyniad.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd safonau yn graddol gymryd lle'r system bresennol o gynlluniau iaith, y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu pum math penodol o safonau.

- Bydd **safon cyflenwi gwasanaethau** yn fath o ddyletswydd a osodir er mwyn hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg neu er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr amgylchiadau canlynol: pan fydd personau sy'n ddarostyngedig i'r safon yn cyflenwi gwasanaethau i eraill, neu pan fyddant yn delio ag eraill mewn cysylltiad â chyflenwi'r gwasanaethau hynny.
- Bydd **safon llunio polisi** yn fath o ddyletswydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Bydd **safon gweithredu** yn fath o ddyletswydd a osodir er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â pherson wrth iddo arfer ei swyddogaethau, neu wrth iddo gynnal busnes neu ymgymeriad arall.
- Bydd **safon hybu** yn fath o ddyletswydd a osodir mewn perthynas â chymryd camau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.
- Bydd **safon cadw cofnodion** yn fath o ddyletswydd a osodir er mwyn cadw a chynnal manylion ynghylch cydymffurfio â'r pedair safon arall, yn ogystal ag unrhyw gwynion eraill yn ymwneud â'r iaith.

Wrth baratoi'r safonau, cadwyd mewn cof yr egwyddorion a lywiodd y broses o ddatblygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymhlith y rhain roedd:

- sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg. I'r perwyl hwnnw rydym wedi datblygu safonau sy'n rhai clir a manwl
- sicrhau bod y safonau mor glir â phosibl o ran yr hyn y mae angen i sefydliadau ei wneud yn ymarferol i gydymffurfio â nhw, fel bod personau mor sicr â phosibl ynghylch beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg
- sicrhau gwell cysondeb rhwng sefydliadau, yn enwedig rhwng sefydliadau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg

- sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau a osodir ar sefydliadau yn unol â safonau'r Gymraeg yn rhai rhesymol a chymesur
- sicrhau bod y safonau'n cael eu gorfodi'n effeithiol.

Mae'r safonau wedi'u drafftio gan gadw mewn cof yr egwyddorion o fod yn rhesymol ac yn gymesur. Yn achos rhai gwasanaethau, rydym wedi datblygu detholiad o safonau sy'n gofyn am wahanol lefelau o ddarpariaeth.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn awr yn cynnal ymchwiliad safonau gan ganolbwyntio ar awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol amewn perthynas â chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru Cymru. . Yn unol â gofynion y Mesur, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi hysbysiad rhagymchwilio i'r sefydliadau perthnasol o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn dechrau ar yr ymchwiliad. Bydd yr hysbysiad hwn yn datgan bwriad y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad safonau, ynghyd a phennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Dyma rai o ddibenion yr ymchwiliad:

penderfynu a ddylai fod angen i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â'r safonau hyn
penderfynu pa safonau ddylai fod yn gymwys i'r sefydliadau hyn, ac a yw'r safonau arfaethedig yn rhesymol a chymesur
unrhyw gwestiwn arall sy'n berthnasol ym marn Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'n annhebygol y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn dymuno gwneud pob un safon yn gymwys i sefydliad. Mae'r safonau wedi'u drafftio gan gadw mewn cof yr egwyddorion o fod yn rhesymol ac yn gymesur. Yn achos rhai gwasanaethau, rydym wedi datblygu detholiad o safonau sy'n gofyn am wahanol lefelau o ddarpariaeth. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gallu amrywio'r hysbysiadau cydymffurfio er mwyn sicrhau bod y safonau a wneir yn gymwys i bob sefydliad yn rhai rhesymol a chymesur.